**Sesiynau ymgynghori galw heibio ar gyfer busnesau Ceredigion ar ddatblygu Strategaeth Economaidd newydd ar gyfer Ceredigion (2020-2035).**

Mae proses ymgynghori ar y gweill er mwyn ymgynghori ar ddatblygu Strategaeth Economaidd newydd ar gyfer y 15 mlynedd nesaf. Rydym eisiau cael barn cynifer o bobl â phosib er mwyn helpu i lywio cyfleoedd yn y dyfodol i wneud Ceredigion yn lle gwych i fyw a gweithio ynddo. Mae'r strategaeth hon yn rhoi cyfle cyffrous inni fod yn uchelgeisiol wrth ddatblygu gweledigaeth ar gyfer tyfu'r economi leol.

Mae cyfres o sesiynau galw heibio yn cael eu cynnal sydd wedi'u hanelu at fusnesau sy'n bodoli eisoes neu'r rheini sy'n ystyried cychwyn busnes yng Ngheredigion er mwyn ceisio barn ar y ffordd orau i chi gael eich cefnogi drwy'r strategaeth hon. Rydym ni eisiau deall yr heriau rydych chi'n eu hwynebu yng Ngheredigion yn well a chasglu eich syniadau ar sut y gallwn ni feithrin amgylchedd lle gall y sector preifat ffynnu a thyfu.

| **Dyddiad** | **Lleoliad** | **Amser** |
|---|---|---|
| **28.1.2020** | Llety Parc Aberystwyth Park Lodge Hotel, Aberystwyth | 4-7pm |
| **29.1.2020** | Theatr Mwldan, Aberteifi / Cardigan | 4-7pm |
| **3.2.2020** | Lampeter Rugby Football Club / Clwb Rygbi Llambed | 4-7pm |

Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â Meleri Richards ar 01545 572066 neu anfonwch e-bost at Meleri.richards@ceredigion.gov.uk. Nodwch nad oes angen i chi gadarnhau eich presenoldeb.